**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@assembly.wales

25 Ebrill 2018

Annwyl Mick

Ysgrifennaf atoch fel ymateb i'ch llythyr dyddiedig 17 Ebrill ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad eich Pwyllgor ar graffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Mae'n wir ddrwg gennyf os bu unrhyw benbleth ynglŷn ag agwedd Llywodraeth Cymru at argymhellion y Pwyllgor, yn arbennig argymhelliad dau, sef y dylai argymhelliad y pwyllgor sifftio fod yn orfodol, oni bai bod y Cynulliad yn penderfynu fel arall. Penderfyniad y Cynulliad i gyflymu'r broses o ystyried adroddiad eich Pwyllgor, am resymau yr wyf innau yn eu deall, sy'n gyfrifol am hyn i raddau helaeth.

Cafodd eich adroddiad ei gyhoeddi ar 16 Chwefror a chynhaliwyd y ddadl ar 7 Mawrth (gyda'r cynnig yn cael ei gyflwyno ar 28 Chwefror). Y pryd hwnnw, yn syml iawn, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cael digon o amser i ystyried goblygiadau'r holl argymhellion yn llawn. Mewn amgylchiadau o'r fath, fel arfer, gofynnir i'r Cynulliad wneud nodyn o adroddiad y Pwyllgor. Yn ystod y ddadl, eglurodd Arweinydd y Tŷ fod Llywodraeth Cymru yn llwyr ddeall pam roedd y Pwyllgor wedi ceisio cymeradwyaeth y Cynulliad cyn i Lywodraeth Cymru gael cyfle i ymateb yn ffurfiol. Fodd bynnag, roedd hi'r un mor glir hefyd, gan nad oeddem wedi cael y cyfle i ymateb yn ffurfiol, mai amodol oedd ein cefnogaeth i'r cynnig i'r graddau ein bod yn cadw ein safbwynt yn ôl mewn perthynas ag argymhelliad dau, a'n bod yn dymuno ystyried ymhellach cyn inni ymateb yn ffurfiol.

Wedi inni ystyried ein safbwynt yn ofalus, ymatebodd Arweinydd y Tŷ yn ffurfiol ichi ar 27 Mawrth, gan gadarnhau ein safbwynt ynglŷn ag argymhellion y Pwyllgor, a'r rhesymau pam nad ydym yn cytuno ag argymhelliad dau. Ysgrifennais innau wedi hynny at Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 29 Mawrth, gan anfon copi atoch chi, at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, ac at y Llywydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel yr eglurwyd gennym yn y ddadl, ac yn ein hymateb ffurfiol i'ch Pwyllgor, rydym o'r farn y byddwn yn derbyn argymhelliad y pwyllgor sifftio yn y mwyafrif helaeth o achosion, yn arbennig gan gadw mewn cof fod unrhyw Aelod yn gallu cyflwyno cynnig dirymu o dan Reol Sefydlog 27.2 ar gyfer unrhyw offeryn statudol a wnaed yn amodol ar y weithdrefn penderfyniad negyddol. Er hynny, gallai fod sefyllfaoedd lle y bydd angen inni weithredu'n gyflymach nag y mae'r weithdrefn gadarnhaol yn darparu ar ei gyfer – a hynny oherwydd rhesymau brys – ac mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn cadw'r hyblygrwydd i wneud hynny.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd ac Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip.

Yn gywir



**CARWYN JONES**